CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
Ar

The Health Professions Wales Abolition Order [2006]

Ystyriodd y Pwyllgor y Gorchymyn uchod yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2006. Fe'i hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth a gytunwyd gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, ble mae Aelodau'n rhybuddio ymlaen llaw ynglyn ag unrhyw ymholiadau neu newidiadau maent yn dymuno'u gwneud i'r Gorchymyn.

Ni chynigiodd y Pwyllgor unrhyw newidiadau.

Mynegodd yr aelodau bryder am y broses ymgynghori ar gyfer y Gorchymyn arfaethedig.

Yr oedd wyth pwynt i'w hegluro wedi codi ac fe atebodd y Gweinidog hwy er bodlonrwydd y Pwyllgor. Mae ei ymateb wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gair am air o'r cyfarfod.
http://www.cymru.gov.uk/servlet/CommitteeMeeting?area_code=N00000000000000000000000000000054&document_code=N00000000000000000000000000041366&month_year=2|2006&p_arch=post&module=dynamicpages

Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r Gorchymyn fel y'i drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Chwefror 2006